


# Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

2015–2020

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Holl weithlu'r byd addysg a'r llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol gan gynnwys y consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a holl arweinwyr lleoliadau sy'n cael eu hariannu nas cynhelir. |
| **Trosolwg** | Ceir yn y cyhoeddiad hwn amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yng Nghymru rhwng 2015 a 2020. |
| **Camau gweithredu** | Dim. Er gwybodaeth. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i'r canlynol:<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Plas Bute<br>Caerdydd<br>CF10 5AL<br>0845 8734 900<br><br>neu<br><br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>0300 0604400 |
| **Copïau ychwanegol** | Gallwch weld y ddogen hon ar wefan Llywodraeth Cymru www.wales.gov.uk/educationandskills a gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru www.cyngorcelfyddydaucymru.org.uk |
| **Dogfennau perthnasol** | *Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau: llinell amser 2015-2016*<br>(Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, 2015);<br>*Adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru*<br>(Cyngor Celfyddydau Cymru, 2013);<br>*Cymwys am Oes: cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*<br>(Llywodraeth Cymru, 2014);<br>*Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi'r celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol*<br>(Llywodraeth Cymru, 2015);<br>*Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*<br>(Llywodraeth Cymru, 2015) |

**ISBN** 978 1 4734 3010 5
**Hawlfraint** © Cyngor Celfyddydau Cymru a Hawlfraint y Goron

NEW Dance yn rhan o Ŵyl Ddawns Sir y Fflint 2014 yng Nghlwyd Theatr Cymru, yr Wyddgrug (llun: Jamie Jenkins)

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidogion** | **3** |
| **Ein gweledigaeth** | **4** |
| **Ein nodau** | **4** |
| **Y cyd-destun** | **5** |
| **Ein camau gweithredu** | **7** |
| **Gwerthuso ac adrodd** | **17** |
| **Atodiad 1**<br>Crynodeb o'r argymhellion o adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru | **19** |




Plant Ysgol Gynradd Hafod yn peintio murlun mewn cartref nyrsio lleol




Prosiect ysgol, Artis Cymuned (llun: Nancy Evans)

## Rhagair y Gweinidogion

Dylai dysgu am y celfyddydau a diwylliant, cymryd rhan yn y celfyddydau a meithrin sgiliau creadigol gael lle amlwg yn addysg pob plentyn ac unigolyn ifanc. Mae'r rhain yn elfennau hanfodol er mwyn creu profiad dysgu cytbwys a sbardunol sy'n talu ar ei ganfed. Ar ben hynny, dim ond drwy gael profiadau celfyddydol a chreadigol o ansawdd uchel mewn ysgolion, eu gwerthfawrogi a rhoi lle haeddiannol iddynt yn ein cwricwlwm, drwy sicrhau eu bod ar gael i bob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, y gallwn feithrin potensial ein dysgwyr a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein heconomi.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i adroddiad yr Athro Dai Smith ar adolygiad *Y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (2013), gan gytuno â phob un o'r deuddeg o argymhellion. Gwnaethom addewid i ddatblygu cynllun yn gadarnhad ffurfiol o'r rôl ganolog a ragwelir gennym ar gyfer addysg y celfyddydau yn ysgolion Cymru. Byddai'r cynllun hwn hefyd yn cyflwyno ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau hyd yr eithaf, ac i weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y celfyddydau a phobl ifanc.

Yn fwy diweddar, yn *Cymwys am Oes: cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, cyflwynwyd ein nodau i adeiladu system addysg lwyddiannus a fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at fwy o arloesi a chreadigrwydd, at brifddinas ddiwylliannol y genedl, ac at gymdeithas decach a mwy llwyddiannus. Bydd y cynllun hwn yn ein cynorthwyo i gyflawni amcanion *Cymwys am Oes:* bydd yn cyfrannu at ein cynlluniau i adeiladu gweithlu proffesiynol rhagorol, ac i ddatblygu cwricwlwm sy’n ddiddorol ac yn ddeniadol i blant a phobl ifanc.

Yn ei adroddiad diweddar, *Dyfodol Llwyddiannus,* a oedd yn dilyn adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, ailddatganodd yr Athro Graham Donaldson bwysigrwydd creadigrwydd yn natblygiad ein plant a'n pobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried ei hymateb i alwad yr Athro Donaldson am newid sylfaenol.

Mae ein hymrwymiad i ariannu'r camau gweithredu yn y cynllun yn dangos ein cred ym mhwysigrwydd y celfyddydau a chreadigrwydd. Bydd yr ymrwymiad hwn a rennir - mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru - yn gweddnewid y modd y mae sector y celfyddydau a’r sector addysg yn cydweithio er budd ein dysgwyr.

**Huw Lewis**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

**Ken Skates**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

## Ein gweledigaeth

Dylai'r celfyddydau a dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu fod â rhan bwysig yn ein holl ysgolion, lle bo cydweithio â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol a hefyd ag ymarferwyr creadigol yn nodwedd gyffredin, a lle bo arfer da wedi'i rannu ac yn hygyrch i bawb.

## Ein nodau



## Y cyd-destun

Mae'r cynllun hwn yn ymateb i'r 12 o argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Athro Dai Smith (gweler Atodiad 1). Yn dilyn yr ymgynghori helaeth a gafwyd yn ystod adolygiad yr Athro Smith, cynhaliom ymgynghoriad pellach ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau celfyddydol, athrawon a chonsortia addysg. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi edrych ar dystiolaeth bellach a manteisio ar arbenigedd a phrofiadau rhaglenni celfyddydol a dysgu creadigol a gyflwynir ym mhob cwr o'r byd.

Mae nifer o bolisïau a mentrau strategol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi cael eu defnyddio'n sail ar gyfer y cynllun, a bydd y cynllun yn anelu i gefnogi'r polisïau a'r mentrau hynny. Y pennaf o blith y rhain yw C*ymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer Dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2014). Mae'r ddogfen hon yn gosod camau er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol, ac adeiladu system addysg fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at economi gryfach, mwy o arloesi a mwy o greadigrwydd, ac at brifddinas ddiwylliannol y genedl.

Y mae’r Athro Dai Smith yn ysgrifennu yn ei adroddiad:

> *'Yn yr unfed ganrif ar hugain sydd ohoni, yn gynyddol bydd addysg yn dod yn sail i gymdeithas greadigol, economi greadigol a diwylliant creadigol. Bydd creadigrwydd, neu fod yn agored i gaffael gwybodaeth newydd a sgiliau arloesol, yn llunio ein byd yn wahanol i unrhyw rym arall y gellir ei ddychmygu.'*

Er mwyn i greadigrwydd o'r fath ffynnu, mae angen i ni adeiladu seilwaith a rhaglenni sy'n rhoi lle creiddiol i'r celfyddydau yn ein system




Gweithdy Dylanwad gyda Laura Sheldon, Llenyddiaeth Cymru (llun: Sioned a Nia Photography)

addysg, yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd y celfyddydau  a galw ar dalentau ein hunigolion creadigol i gydweithio â'n myfyrwyr ifainc. Bydd yn rhaid inni hefyd ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc o gefndiroedd difreintiedig sy'n aml â llai o hygyrchedd i weithgareddau celfyddydol a phrofiadau diwylliannol – sef pobl ifainc y gall cymryd rhan weithredol yn y celfyddydau a chydweithio ag ymarferwyr creadigol eu hymgysylltu, eu sbarduno, adeiladu eu hyder a rhoi iddynt sgiliau trosglwyddadwy.

Yn ei adroddiad ar y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, mae'r Athro Graham Donaldson yn ailddatgan pwysigrwydd creadigrwydd a statws y celfyddydau o fewn y cwricwlwm:

> Mae'r celfyddydau mynegiannol yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio, mireinio a chyfleu syniadau, gan ddefnyddio'r meddwl, y dychymyg a'r synhwyrau mewn ffordd greadigol … Wrth ymwneud a'r celfyddydau mynegiannol, rhaid wrth ymroddiad, dyfalbarhad a gofal am fanylion, ac mae'r rhain yn alluoedd sy'n fanteisiol ar gyfer dysgu'n gyffredinol. Yn yr adolygiad o'r *Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, cafwyd y geiriau grymus hyn gan yr Athro Dai Smith, "Mae'n amlwg … bod gwledydd ledled y byd yn cydnabod arwyddocad a photensial y celfyddydau o ran galluogi gwell deilliannau addysgol, cymdeithasol ac economaidd."
>
> Yr Athro Graham Donaldson,
> *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*,
> 2015

Byddwn yn defnyddio dysgu ac addysgu creadigol a gweithgareddau'r celfyddydau i fynd i'r afael â'r diffyg dyhead a'r lefelau isel o ymgysylltu a chyflawni ymhlith dysgwyr dan anfantais. Yn y modd hwn, bydd y cynllun yn helpu i gyflawni sawl amcan yn *Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru* (2014).

Drwy bartneriaethau cryf â'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol, bydd ein camau gweithredu yn cyd-fynd â'r fframwaith gwella ysgolion a nodwyd yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol - y canllawiau ar gyfer consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Byddwn yn ceisio cysoni'r 'cynnig' newydd ar gyfer y celfyddydau a chreadigrwydd â seilwaith y consortia rhanbarthol er mwyn cefnogi arweinwyr ysgolion ac athrawon.

Drwy gynnwys y celfyddydau a dulliau creadigol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd, byddwn yn cynorthwyo ysgolion i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Drwy ein camau gweithredu, byddwn hefyd yn cefnogi'r strategaeth Creawdwyr Ifainc gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn gweithredu sawl argymhelliad yn yr adroddiad *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2014), gan y Farwnes Kay Andrews.

## Ein camau gweithredu

Pwrpas y cynllun hwn yw creu newid sylweddol yn ystod ac ansawdd y cyfleoedd a roddir i'n plant a'n pobl ifanc gael dysgu am ddiwylliant a’r celfyddydau, a chymryd rhan ynddynt. Bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar **bartneriaethau cryf: Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan weithio gyda'r consortia addysg rhanbarthol, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector celfyddydol a diwylliannol ehangach.**

Ar gyfer pob agwedd ar y cynllun, mae angen cyfranogiad gweithredol artistiaid, gweithwyr creadigol a sefydliadau celfyddydol, diwylliannol a threftadol, gan weithio **mewn partneriaeth ag athrawon ac ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn bwrw ymlaen â'r camau a nodir ar y tudalennau canlynol.**



Chwedlau, prosiect ysgol Cyswllt Celf

## 1. Gwella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd

Drwy gynllunio'n ofalus a thrwy ddysgu proffesiynol priodol, gall defnyddio'r celfyddydau ar draws y cwricwlwm i feithrin creadigrwydd plant a phobl ifanc greu gwelliannau sylweddol o ran cymhelliant, ymddygiad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Er mwyn paratoi ein pobl ifanc i ffynnu yn economi'r dyfodol yng Nghymru, roedd adroddiad yr Athro Smith yn galw am roi lle canolog i greadigrwydd o fewn y cwricwlwm. Yn sgil hynny, bydd angen cynorthwyo ein hathrawon i ddatblygu dull mwy creadigol o ddysgu ac addysgu.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy **Gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol** - ymyriad dwys lle defnyddir sgiliau ymarferwyr creadigol ac athrawon wrth iddynt gydweithio.

- Bydd ysgolion sy'n ymgeisio i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi materion allweddol y maent am fynd i'r afael â hwy drwy ddefnyddio dull creadigol o ddysgu. Er enghraifft, efallai y bydd ysgol uwchradd yn dewis mynd i'r afael â chyrhaeddiad isel mewn mathemateg yn CA3, drwy ddefnyddio ystod o dechnegau i ennyn diddordeb ac ysgogi'r dysgwyr; efallai y bydd ysgol gynradd yn dymuno datblygu dulliau trawsgwricwlaidd arloesol i hybu sgiliau llythrennedd.

- Pennir gweithiwr creadigol wedi'i hyfforddi'n arbennig ar gyfer pob ysgol sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Bydd yr unigolyn hwnnw, mewn cydweithrediad â'r consortiwm rhanbarthol a'r cynghorydd herio, yn gweithio gyda'r ysgol i lunio rhaglen i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd. Ymgorfforir y rhaglen yng nghynllun gwella'r ysgol, cytunir ar feini prawf meincnodi a chasglu data fel tystiolaeth o unrhyw effaith.

- Bydd artistiaid ac ymarferwyr creadigol yn cymryd rhan weithgar yn narpariaeth y rhaglen.

- Bydd yr athro yn ganolog i'r rhaglen drwy'r amser, gan weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol er mwyn dylunio a darparu dulliau newydd, a myfyrio ar ei ymarfer.

Bydd y **Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol:**

- yn cynorthwyo ysgolion i wella deilliannau dysgwyr dros isafswm o ddwy flynedd;

- yn ymwreiddio newidiadau mewn arferion dysgu er mwyn creu effaith gynaliadwy;

- yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r 4 consortiwm addysg rhanbarthol;

- ar gael i tua thraean o ysgolion Cymru (darpariaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) dros bum mlynedd y cynllun hwn;

- yn cefnogi ysgolion i ddod o hyd i ffyrdd creadigol o ran llythrennedd, rhifedd a chau’r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim a’u cyfoedion;

- yn cynnwys disgwyliad i athrawon rannu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a gânt oddi wrth y cynllun, o fewn eu hysgol a chydag eraill;

- ar gyfer ysgolion sy'n ennill statws Ysgol Greadigol Arweiniol, yn rhoi cydnabyddiaeth o ymrwymiad yr ysgolion hyn i wella drwy ddefnyddio dysgu creadigol a'r celfyddydau.

Credwn y bydd y dull hwn yn arwain at welliant cynaliadwy ac at newidiadau o ran addysgeg. Yr hyn fydd yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant yr ymyriad hwn fydd cefnogaeth uwch reolwyr i'w ymwreiddio ym mholisi gwella'r ysgol gyfan.

| Crynodeb: ein camau gweithredu | |
|---|---|
| **Rydym wedi** | **Byddwn yn** |
| • Cynnwys ystyriaeth o safle creadigrwydd yn y cwricwlwm yn rhan o Adolygiad yr Athro Donaldson o'r Cwricwlwm ac Asesu.<br><br>• Ystyried modelau arfer creadigol mewn addysg a datblygu methodoleg ar gyfer Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol 'wedi'i greu yng Nghymru'. | • Sefydlu Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, a chanddo'r potensial i gyrraedd traean o ysgolion Cymru dros bum mlynedd y cynllun hwn.<br><br>• Ystyried effaith adroddiad yr Athro Graham Donaldson ar Asesu a'r Cwricwlwm Cenedlaethol, os o gwbl, ar fethodoleg y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.<br><br>• Cynorthwyo ein Hysgolion Creadigol Arweiniol dros isafswm o ddwy flynedd er mwyn gwella deilliannau dysgwyr. |



Gweithdy animeiddio Ffotogallery, Ysgol Stanwell, Penarth

## 2: Cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd i ddysgwyr ym maes y celfyddydau

Cyfeiriai adroddiad yr Athro Dai Smith at y ffaith bod cyfoeth o gelfyddydau a diwylliant amrywiol eisoes yn cael ei gynnig i ysgolion ledled Cymru. Yr her yw sicrhau bod hwnnw'n cael ei gynnig ar raddfa ehangach a'i wneud yn fwy perthnasol i ysgolion.

Er mwyn ateb yr her hon, byddwn yn sefydlu Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru er mwyn:

- cynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydol/ diwylliannol/treftadol gael cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg);
- cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gael profi gwaith artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol Cymru;
- creu mwy o gyfleoedd i gyfathrebu ac ar gyfer partneriaethau rhwng ysgolion, artistiaid, sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/ treftadol a chymunedau lleol.

Drwy Raglen y Celfyddydau ac Addysg , bydd ysgolion yn gallu: manteisio ar wybodaeth ac arferion artistiaid a sefydliadau celfyddydol/ diwylliannol er mwyn gwella ac ategu addysgu'r celfyddydau mewn ysgolion; cael cymorth i wireddu tair blaenoriaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau, sef llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith anfantais ar gyrhaeddiad; a rhoi profiadau celfyddydol a diwylliannol i ddysgwyr, oddi mewn ac oddi allan i'r cwricwlwm.

Rydym eisoes wedi gweithredu i ddangos ein hymrwymiad i'r agenda hon, ee drwy ofyn i Estyn gynnal adolygiad arfer gorau o'r celfyddydau mewn ysgolion, comisiynu pecyn cymorth i gefnogi llythrennedd a rhifedd drwy'r celfyddydau, a thrwy ystod o gamau eraill a restrir ar dudalen 13 isod.

**Cyfleu'r hyn sy'n cael ei gynnig**

Mae cyfathrebu'n well ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gynnig yn allweddol er mwyn ehangu mynediad. I ymdrin â hyn, bydd **porth newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer y celfyddydau a dysgu creadigol** a'i gynnal ar Hwb, platfform dysgu Cymru gyfan.

Bydd y porth wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan athrawon, dysgwyr ac ymarferwyr a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Bydd yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd i ysgolion, yn arddangos arfer gorau, yn cynnal adnoddau i athrawon a sefydliadau celfyddydol/ diwylliannol, yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd dysgu proffesiynol, a manylion cyswllt ar gyfer rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Gwaith rhanbarthol**

Byddwn yn defnyddio rhwydweithiau rhanbarthol i wella cyfleoedd celfyddydol a chreadigol i ddysgwyr. **Bydd Pedwar Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg** yn cyflenwi Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg, gyda chysylltiadau agos â'r consortia addysg rhanbarthol, cynghorwyr herio, a'r cydgysylltwyr sy'n gyfrifol am y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd cylch gwaith y rhwydweithiau yn cynnwys:

- Coladu a lledaenu arfer gorau;
- Sefydlu a chydgysylltu cyfleoedd rhwydweithio ym maes y celfyddydau a dysgu creadigol (wyneb yn wyneb ac yn ddigidol) i athrawon, artistiaid, sefydliadau celfyddydol a sefydliadau diwylliannol;
- Darparu gwasanaeth 'broceru' rhwng ysgolion ac artistiaid, sefydliadau celfyddydol/ diwylliannol;
- Rhoi cyfleoedd hyfforddi er mwyn i ymarferwyr y celfyddydau wella a chynllunio'u darpariaeth yn arbennig i gyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau ysgolion;
- Rhoi cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau; a
- Rheoli a chydgysylltu rhaglen 'hyrwyddwyr celfyddydau lleol'

Athrawon profiadol ym maes y celfyddydau fydd **Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol**. Bydd eu hysgolion yn cael eu hariannu i'w rhyddhau i dreulio cyfnodau byr o amser yn hyrwyddo arfer gorau, gan gynorthwyo eraill i fabwysiadu dulliau tebyg, neu wahodd eraill i'w hysgol i arsylwi a dysgu. Bydd artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol hefyd yn cael cyfleoedd i gyflawni'r rôl hon.

Er mwyn i ysgolion allu elwa ar gymryd rhan yn Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg, bydd gofyn i uwch reolwyr ysgolion ddangos eu bod yn cefnogi'r rhaglen yn llwyr. Byddwn yn gofyn iddynt enwebu aelod o staff (pennaeth adran neu aelod o'r uwch dîm rheoli fyddai orau) i gyflawni rôl **Hyrwyddwr Creadigrwydd a'r Celfyddydau yn yr Ysgol**. Yr unigolyn hwn fydd y cyswllt rhwng yr ysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r rhwydwaith rhanbarthol. Bydd yn helpu ei ysgol i nodi blaenoriaethau o ran addysg y celfyddydau, ac yn sicrhau bod ei ysgol yn ymwybodol o arfer gorau ac yn gallu manteisio i'r eithaf ar fynediad gwell i gyfleoedd celfyddydol a chreadigol.



Plant Ysgol Gynradd Hafod yn astudio cerfluniaeth ac arlunio â siarcol

**Profi'r celfyddydau**

Bydd **cronfa 'Profi'r Celfyddydau'** yn annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc 'fynd gam ymhellach' wrth archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Bydd gan y cyfleoedd hyn fuddion penodol i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig â hygychedd cyfyngedig i gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau. Gellir defnyddio'r gronfa hon i gefnogi ymweliadau â lleoliadau fel orielau a theatrau er mwyn cyfoethogi'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth, neu ei defnyddio i gefnogi ffyrdd newydd ac arloesol o gydweithio rhwng ysgolion a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Ym mhob achos, bydd disgwyl i ysgolion ddangos sut mae'r gweithgaredd yn cyfrannu at y dysgu ac yn ei gyfoethogi, ac yn cynnig rhywbeth newydd ac ysgogol i ddysgwyr.

**Llwybrau dilyniant**

Rydym yn cydnabod bod angen ystyried cefnogaeth a dilyniant i'n dysgwyr mwy galluog a thalentog. Ceir sawl menter gelfyddydol yng Nghymru sy'n rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc talentog, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi a gweithio ochr yn ochr â'n gweithwyr proffesiynol blaenllaw ym maes y celfyddydau. Serch hynny, nid yw'r cyfleoedd hyn ar gael ym mhob rhan o Gymru.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud gwaith mapio i greu darlun mwy cynhwysfawr o'r hyn y mae ein sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn ei gynnig ar hyn o bryd i'n pobl ifanc talentog.  Bydd yr ymchwil yn tynnu sylw at gyfleoedd a bylchau yn y ddarpariaeth a hefyd yn nodi'r adnoddau sydd eu hangen, ac y bydd eu hangen yn y dyfodol, i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad i ganfod y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr mwy galluog a thalentog 3-19 oed ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i ddysgwyr sy'n dilyn pynciau creadigol neu gelfyddydol, fel y celfyddydau perfformio neu weledol. Pwrpas yr adolygiad yw deall sut y mae ysgolion, sefydliadau/colegau AB ac awdurdodau lleol yn pennu, cefnogi a herio dysgwyr mwy galluog a thalentog. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn, ynghyd â chanlyniadau ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru, yn cael eu defnyddio'n sail wrth i ni weithredu yn y dyfodol.

Pa le bynnag y bônt ar eu taith greadigol, mae ar bobl ifanc angen gwybodaeth a chyngor cytbwys am **yrfaoedd** fel eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael a'r sgiliau sydd eu hangen.  Rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud gyda rhanddeiliaid a phartneriaid fel y cynghorau sgiliau sector a'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, o ran sut y gall pobl ifanc gael dealltwriaeth well o lwybrau i mewn i'r sector hwn. Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth am gyfleoedd a llwybrau gyrfa ymhlith dysgwyr ac athrawon. Byddwn hefyd yn gofyn i Gyrfa Cymru weithio gyda sector y celfyddydau a creadigol er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol a hygyrch ar-lein am swyddi.

Cydnabyddwn hefyd swyddogaeth rymus y gall y celfyddydau a sgiliau creadigol eu cael wrth ymgysylltu, sbarduno a magu hyder ymhlith y rhai sydd mewn perygl o ymadael â'r ysgol heb gymwysterau a heb lwybr clir i addysg uwch na chyflogaeth. Bydd y rhwydweithiau rhanbarthol yn meithrin cysylltiadau rhwng sefydliadau celfyddydol, ysgolion, cydlynwyr a gweithwyr arweiniol yr awdurdodau lleol o ran Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sy'n cefnogi pobl ifainc sydd mewn perygl o ddatgysylltu rhag addysg a hyfforddiant. Drwy'r cysylltiadau hyn codwn ymwybyddiaeth ac ymgyfranogi yn y cyfleoedd creadigol ar gyfer pobl ifainc ar y cyrion gan gydblethu gweithredu'r cynllun hwn â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

<table>
<tr><th colspan="2">Crynodeb: ein camau gweithredu</th></tr>
<tr><th>Rydym wedi</th><th>Byddwn yn</th></tr>
<tr><td>
<ul>
<li>Comisiynu pecyn cymorth i gefnogi llythrennedd/rhifedd a'r celfyddydau.</li>
<li>Gofyn i Estyn gynnal adolygiad 'arfer gorau' o'r celfyddydau mewn ysgolion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.</li>
<li>Cyhoeddi astudiaethau achos ar y celfyddydau mewn addysg ar Dysgu Cymru.</li>
<li>Cynnwys y celfyddydau yn yr hyn sy'n cael ei gynnig i ddysgwyr mewn Ysgolion Llwybrau Llwyddiant, yn rhan o Her Ysgolion Cymru.</li>
<li>Cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol.</li>
<li>Cynnwys y celfyddydau yn yr Adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i Nodi Darpariaeth i Ddysgwyr Mwy Abl a Thalentog ledled Cymru.</li>
</ul>
</td><td>
<ul>
<li>Datblygu porth ar gyfer y celfyddydau a dysgu creadigol i'w gynnal ar Hwb, platfform dysgu Cymru gyfan.</li>
<li>Ariannu pedwar Rhwydwaith Addysg a'r Celfyddydau i gyflenwi amrywiaeth o weithgareddau ar raddfa leol a rhanbarthol, ac ar raddfa'r ysgol.</li>
<li>Sefydlu cronfa 'Profi'r Celfyddydau' i'r ysgolion.</li>
<li>Lle bo'n briodol, cynnwys gweithgareddau celfyddydol yn yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a ddarperir i'r ysgolion er mwyn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.</li>
<li>Gweithio gyda sector y celfyddydau a'r sector treftadaeth i hybu cyfleoedd i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.</li>
<li>Gweithio gyda sefydliadau celfyddydol a diwylliannol i gynyddu'r hyn y maent yn ei gynnig o ran addysg i ysgolion, i'w wneud yn fwy hygyrch a'i gysoni ag anghenion a blaenoriaethau'r ysgolion.</li>
<li>Parhau i weithio gydag Ysgolion Llwybrau Llwyddiant (Her Ysgolion Cymru) i gynnwys y celfyddydau yn yr hyn y maent yn ei Gynnig i ddisgyblion.</li>
<li>Datblygu pecyn dysgu ar y Grant Amddifadedd Disgyblion a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol.</li>
<li>Ystyried canfyddiadau'r Adolygiad i Ganfod Darpariaeth ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Thalentog ledled Cymru, a datblygu camau priodol.</li>
<li>Gofyn i Gyrfa Cymru weithio gyda'r sector er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol a hygyrch ar-lein am swyddi celfyddydol a chreadigol.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| Crynodeb: ein camau gweithredu | |
|---|---|
| **Rydym wedi** | **Byddwn yn** |
| | • Gweithio gyda'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol a chyda rhanddeiliaid eraill i archwilio opsiynau ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth am lwybrau gyrfa yn y sector celfyddydol/diwylliannol/creadigol a chryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgolion a'r sectorau hyn.<br><br>• Cydweithio â chydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn yr awdurdodau lleol i hyrwyddo ymgyfranogi yn y celfyddydau gan bobl ifainc sydd mewn perygl o ymadael â'r ysgol heb gymwysterau. |



Ymweliad ysgol i Oriel Myrddin (llun: Seren Stacey)

## 3: Cefnogi ein hathrawon ac ymarferwyr y celfyddydau i ddatblygu eu sgiliau

Bydd egwyddorion cynaliadwyedd yn cael eu hymgorffori yn y cynllun drwy newid y modd y bydd athrawon, ymarferwyr addysg a sefydliadau diwylliannol yn datblygu eu harfer, a'r modd y bydd ysgolion, consortia a sefydliadau diwylliannol yn datblygu eu polisi.

Gwyddom fod y nodweddion canlynol yn bresennol wrth lwyddo i newid arferion addysgu: sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol, mynediad at arbenigedd o'r tu allan i amgylchedd yr ysgol, dysgu sy’n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd drwy arbrofi gyda dulliau newydd yn yr ystafell ddosbarth a herio rhagdybiaethau negyddol ynglŷn â'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni, a'r hyn na allant ei gyflawni. Mae hyn yn unol ag egwyddorion y Model Dysgu Proffesiynol a ddatblygwyd i gefnogi dysgu proffesiynol yr holl ymarferwyr addysgol yng Nghymru, fel rhan o'r Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg. Byddwn yn cymhwyso'r dulliau hyn i'r fethodoleg ar gyfer **dysgu proffesiynol yn y Cynllun Ysgolion** Creadigol Arweiniol ac yn Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru.

Er mwyn galluogi athrawon a gweithwyr creadigol i gyflawni eu rolau yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, bydd cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael eu cynnig i'r athrawon, i'r gweithwyr proffesiynol, i hyrwyddwyr y celfyddydau ac i sefydliadau celfyddydol a threftadol.

Bydd ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn rhannu'r wybodaeth a'r profiad a enillwyd gydag ysgolion eraill, mewn dull sy'n parhau i gael ei fodelu gan ein Cynllun Braenaru ar gyfer Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol. Mae sefydlu cyfleoedd i athrawon ac ymarferwyr celfyddydol/diwylliannol gael dod ynghyd i rannu profiadau ac i ddysgu'r naill oddi wrth y llall yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r cynllun hwn. Caiff cyfleoedd i **rwydweithio’n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol** eu datblygu i rannu arfer gorau ac i sicrhau bod y gwelliannau i arferion yn cael eu cynnal.

Mae angen i ni sicrhau bod yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun yn cael eu trosglwyddo a'u hymwreiddio yn sectorau addysg a diwylliant Cymru. Ar ôl cwblhau'r cynllun pum mlynedd hwn, byddwn felly'n cynnal rhaglen i 'hyfforddi'r hyfforddwyr', er mwyn sicrhau bod gennym y capasiti i barhau i gyflenwi darpariaeth dysgu broffesiynol o ansawdd uchel.

Yn sgil ein buddsoddiad i ddatblygu artistiaid ac ymarferwyr creadigol, bydd gennym garfan bwerus o weithwyr diwylliannol proffesiynol hyfforddedig. Mae tystiolaeth o ardaloedd eraill yn Ewrop yn awgrymu y bydd gweithwyr proffesiynol o'r fath, ar ôl cael eu hyfforddi, yn parhau'n weithgar yn y sector addysg ac yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan yr ysgolion a chan asiantaethau eraill. Wrth i ysgolion arbrofi gydag ystod ehangach o gyfleoedd creadigol a diwylliannol, gyda chefnogaeth y Model Dysgu Proffesiynol, byddant yn datblygu i fod yn llawer mwy detholgar ac effeithiol wrth fanteisio ar gyfleoedd ym maes diwylliant a'r celfyddydau.

Byddwn hefyd yn archwilio'r cyfleoedd i gydweithio **rhwng canolfannau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Cymru a'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol,** a'r posibiliadau i rannu arfer gorau wrth ddatblygu methodoleg addysgu creadigol. Wrth gwrs, gallai ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn Adolygiad yr Athro Donaldson o’r cwricwlwm a’r trefniadau asesu yng Nghymru ddylanwadu ar newidiadau hirdymor, ynghyd â'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad yr Athro John Furlong o Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i'r Safonau Statws Athro Cymwysedig yn rhan o'r gwaith i gefnogi safonau proffesiynol athrawon.

| Crynodeb: ein camau gweithredu | |
|---|---|
| **Rydym wedi** | **Byddwn yn** |
| • Datblygu fframwaith i gefnogi dysgu proffesiynol pob ymarferydd addysgol yng Nghymru - y Model Dysgu Proffesiynol.<br>• Cynnwys y celfyddydau yn yr uned Tlodi yn y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. | • Datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau yn Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru sy'n cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol i wella safonau llythrennedd a rhifedd a chau'r bwlch mewn cyrhaeddiad, ac sydd yn gwbl gyson â'r Model Dysgu Proffesiynol.<br>• Cynnig rhaglen ddysgu broffesiynol wedi'i chynllunio'n arbennig i ymarferwyr - athrawon ac ymarferwyr creadigol/celfyddydol - yn ein Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.<br>• Datblygu dull cynaliadwy ar gyfer dysgu proffesiynol drwy 'hyfforddi'r hyfforddwyr' ar gyfer ein Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.<br>• Cynnwys methodoleg addysgu creadigol a chydweithio â sefydliadau celfyddydol/diwylliannol yn y strwythur ar gyfer y rhaglenni Meistr newydd fydd yn cael eu lansio yn 2016.<br>• Annog canolfannau AHCA i hyrwyddo methodoleg addysgu creadigol a chysylltiadau â'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arbenigol, ac annog ymwreiddio'r celfyddydau mewn rhaglenni AHCA.<br>• Llunio astudiaethau achos o arfer effeithiol, gan gynnwys esiamplau o gyfranogiad yn y celfyddydau yn unol â'r Model Dysgu Proffesiynol. |

## Gwerthuso ac adrodd

Bydd **gwerthusiad** yn cael ei gynnal i asesu effeithiolrwydd y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru dros bum mlynedd y cynllun hwn. Yn rhan o'r gwerthusiad, bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i harchwilio'n gysylltiedig ag allbwn, deilliannau ac effaith; gan gynnwys casglu data o ysgolion ac o gonsortia addysg rhanbarthol. Bydd yr ymchwil yn cael ei gynllunio i ganfod yr effaith y gellid ei phriodoli'n benodol i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, a hefyd yn darparu tystiolaeth ynghylch gweithredu y gellir ei defnyddio i wella'r cynllun a Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru yn ystod y cyfnod ariannu. Yn benodol, bydd y gwerthusiad yn ystyried effaith y cynllun ar dair agwedd ar ddatblygiad disgyblion:


- Cynnydd o ran cyrhaeddiad mewn rhifedd a llythrennedd;
- Effaith y rhaglen o ran lleihau'r gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad pobl ifanc o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol;
- Creadigrwydd y dysgwyr.

Bydd yr ymchwil a gynhelir i werthuso'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r hyn a gynigir drwy raglen y Celfyddydau ac Addysg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

| Crynodeb: ein camau gweithredu |
|---|
| **Byddwn yn** |
| • Casglu tystiolaeth i ddangos effaith ymyriadau celfyddydol ar ddeilliannau addysgol.<br>• Cyhoeddi adroddiadau ar gynnydd y cynllun hwn bob blwyddyn, gyda chamau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.<br>• Cyhoeddi papurau ymchwil yn ymwneud â'r gwerthusiad yn ystod y cynllun 5-mlynedd, ac ar ôl ei gwblhau. |

## Partneriaeth Strategol

### Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio gyda chonsortia addysg rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill



## Atodiad 1

### Crynodeb o'r argymhellion o adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru

1. Dylai **Llywodraeth Cymru** gadarnhau'n ffurfiol y rôl ganolog y mae'n ei rhagweld ar gyfer addysg y celfyddydau yn ysgolion Cymru, drwy ymrwymo i ddarparu mynediad i'r celfyddydau ac addysg y celfyddydau o ansawdd uchel.

2. Dylai **Llywodraeth Cymru** hyrwyddo'r defnydd o'r celfyddydau er mwyn cynorthwyo i wella rhifedd a llythrennedd, a lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad.

3. Dylai **Llywodraeth Cymru** wella'r cwricwlwm cyfredol i gynnwys creadigrwydd ochr yn ochr â rhifedd a llythrennedd fel thema graidd ar draws yr holl ddisgyblaethau pwnc, ac mewn addysg gynradd ac uwchradd; at hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried bod addysg wedi'i chyfoethogi gan y celfyddydau yn rhan greiddiol o'r profiad ysgol- gyfan a gaiff pob disgybl; ac ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, dylai geisio galluogi profiadau eang o'r celfyddydau y tu allan i'r ysgol, yn ogystal â rhyngweithio ag artistiaid proffesiynol o fewn amgylchedd yr ysgol.

4. Yn yr holl hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a gyflenwir gan **sefydliadau AU yng Nghymru** dylid sicrhau lle 'creiddiol' i fethodoleg addysgu creadigol mewn ymarfer addysgu.

5. Dylai **Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru** weithio gyda grŵp o ymarferwyr addysg profiadol i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer y celfyddydau yn gysylltiedig â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dylai hyn roi sylw i anghenion yr athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau fel ei gilydd, a chefnogi'r blaenoriaethau cenedlaethol i wella safonau llythrennedd a rhifedd a chau'r bwlch mewn cyrhaeddiad.

6. Dylai **Llywodraeth Cymru** gefnogi:

   - Meithrin 'hyrwyddwyr y celfyddydau' mewn ysgolion oddi mewn i'r cynllun newydd cenedlaethol ar gyfer dysgu creadigol

   - Gwobrau Celfyddydau Cymru ac/neu fedalau i athrawon unigol

7. Dylid rhoi'r cyfrifoldeb i **Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Leol** weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia addysg i flaenoriaethu amrywiaeth o fentrau penodol, er mwyn cefnogi a datblygu addysgu creadigol, gan gynnwys:

   - Tystysgrifau Marc Celfyddydau Cymru (MCC)

   - Mentora athrawon gydag ymarferwyr y celfyddydau a sefydliadau celfyddydol.

   - Gweithio gyda llywodraeth leol i nodi, datblygu a chynnal system 'hyrwyddwyr y celfyddydau' mewn ysgolion

8. Dylai **Llywodraeth Cymru** a **Chyngor Celfyddydau Cymru** sicrhau bod Porth Addysg Greadigol yn cael ei ddatblygu fel elfen ychwanegol integredig o 'Hwb', Platfform Dysgu Digidol Cymru gyfan.

9. Dylid rhoi cyfrifoldeb i **Gyngor Celfyddydau Cymru** weithio gyda'r cleientiaid a ariennir drwy ei refeniw, a chyda sefydliadau eraill diwylliannol, i sefydlu 'Rhwydweithiau Dysgu Creadigol'. Nod hyn fyddai annog y celfyddydau, artistiaid, athrawon, rhieni ac addysgwyr i gyfnewid syniadau a gwybodaeth, a chydweithio â Chymunedau Dysgu Proffesiynol i wella safonau dysgu creadigol mewn ysgolion. Dylai'r Rhwydweithiau adlewyrchu'r pedwar consortiwm rhanbarthol a'u goleuo hefyd.

10. Dylai **Llywodraeth Cymru** archwilio opsiynau ariannu gyda'r nod o sicrhau bod darpariaeth deg ar gael i bobl ifanc ym mhob ffurf ar gelfyddyd, a bod pobl ifanc eithriadol o dalentog yn gallu canlyn a datblygu eu talent.

11. Dylai **Llywodraeth Cymru** a **Gyrfa Cymru** weithio mewn partneriaeth i gefnogi ffocws cryfach ar roi cyngor mwy cytbwys am yrfaoedd i bobl ifanc, er mwyn amlygu cyfleoedd a llwybrau yn sector y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

12. Dylai **Llywodraeth Cymru** ei gwneud hi'n ofynnol i **Estyn** gynnal archwiliad cyfnodol o ysgolion Cymru i asesu'r broses o ymwreiddio dysgu creadigol ac ansawdd y profiadau parhaus ym maes y celfyddydau a'u heffaith ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd.



Gweithdy adrodd stori creadigol gan Emma Cartwright, Oriel Mission